

Hawdd ei ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llesiant Cymru: 2026



Adroddiad ar sefyllfa Cymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Llesiant Cymru: 2026. Mae'r adroddiad yn edrych ar sut mae Cymru'n gwneud cynnydd tuag at y 7 nod llesiant. Mae'r adroddiad yn defnyddio gwybodaeth o arolygon, ymchwil ac ystadegau swyddogol.

Cyhoeddwyd: Hydref 2026

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Sut rydyn ni'n mesur llesiant	8
1. Cymru lewyrchus	9
2. Cymru gydnerth	15
3. Cymru iachach	20
4. Cymru sy'n fwy cyfartal	24
5. Cymru o gymunedau cydlynus	30
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	36
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	41
Rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn	45
Geiriau anodd	47

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Mae'n bosib y byddwch chi'n dal i fod angen help i'w darllen. Gallwch ofyn i rywun rydych chi'n ymddiried ynddo eich helpu.



Mae geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae ystyr y geiriau hyn yn cael eu hesbonio yn yr eirfa ar dudalen 47.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:



Gwefan:
www.llyw.cymru/llesiant-cymru



E-bost: stats.info.desk@gov.wales



Ffôn: 0300 025 1154

Cyflwyniad

10fed



Llesiant economaidd



Llesiant cymdeithasol



Llesiant amgylcheddol



Llesiant diwylliannol

Dyma'r 10fed adroddiad am lesiant yng Nghymru. Pan fyddwn ni'n sôn am lesiant, dyma rydyn ni'n golygu:

- Mae **llesiant economaidd** yn sôn am incwm a chyflogaeth.
- Mae **llesiant cymdeithasol** yn sôn am bobl, cymunedau a chyd-dynnu efo pobl eraill.
- Mae **llesiant amgylcheddol** yn sôn am fyd natur, tir, dŵr ac aer.
- Mae **llesiant diwylliannol** yn sôn am iaith, hanes, y celfyddydau a thraddodiadau.
- Mae hefyd yn cynnwys eich **llesiant** eich hun.



Mae **llesiant** yn golygu bod yn iach, yn hapus a gallu byw bywyd da.



Rydyn ni'n ysgrifennu'r adroddiad hwn i weld sut mae Cymru'n gwneud yn erbyn y **7 nod llesiant**.

Mae'r nodau hyn yn rhan o **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**.



Mae hon yn gyfraith sy'n awyddus i wneud Cymru'n lle gwell i fyw ynddo nawr ac yn y dyfodol.




Mae gan y gyfraith **7 nod** nod i helpu Cymru i ddod yn fwy **cynaliadwy**.

Mae **cynaliadwy** yn golygu defnyddio beth rydyn ni ei angen heddiw gan sicrhau bod digon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r **nodau** hyn yn disgrifio'r math o Gymru rydyn ni eisiau yn y dyfodol.

Dyma'r **7 nod llesiant** ar gyfer Cymru:



1. Cymru Iewyrchus.



2. Cymru gydnherth.



3. Cymru iachach.



4. Cymru sy'n fwy cyfartal.



5. Cymru o gymunedau cydlynus.



6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.




7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Byddwn yn siarad mwy am y nodau hyn a beth maen nhw'n ei olygu yn y ddogfen.

Sut rydyn ni'n mesur llesiant



I gael gwybod sut mae Cymru'n dod yn ei blaen, rydyn ni'n casglu gwybodaeth a data. Rydyn ni'n defnyddio 50 o ddangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at y **nodau llesiant**.



Mae **dangosyddion cenedlaethol** yn bethau rydyn ni'n eu mesur i'n helpu i weld a yw Cymru'n gwella.




Mae gennym gerrig milltir hefyd. Mae **cerrig milltir** yn dargedau sy'n dangos lle rydyn ni eisiau cyrraedd yn y dyfodol. Maen nhw'n ein helpu i weld a yw Cymru'n gwneud digon o gynnydd.



Mae gweddill y ddogfen hon yn egluro sut mae Cymru'n perfformio yn erbyn pob un o'r **nodau llesiant**.

1. Cymru lewyrchus



Mae'r nod hwn yn sôn am helpu pobl yng Nghymru i gael swyddi da, digon o arian a'r sgiliau maen nhw eu hangen ar gyfer y dyfodol.


Mae'n golygu:



- Helpu pobl i ddod o hyd i waith.
- Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n deg.
- Helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd.
- Helpu busnesau i dyfu.
- Gofalu am yr amgylchedd wrth i Gymru dyfu.



Dyma rydyn ni wedi ei ddarganfod:



- Mae **economi'r** DU wedi tyfu'n araf dros y ddwy flynedd ddiwethaf.




Mae **economi** ydy'r arian y mae pobl, busnesau a phob llywodraeth yn ei wario ac yn ei ennill.



- Mae llai o swyddi ar gael nag a oedd ychydig flynyddoedd yn ôl.
- Mae Cymru yn debycach i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig nag yr oedd yn arfer bod o ran **cyflogaeth**.

Mae **cyflogaeth** yn golygu bod pobl mewn gwaith.



- Mae rhai busnesau'n dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio ac yn datblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd.
- Mae gan Gymru lai o fusnesau o hyd yn gwneud hyn na llawer o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.
- Mae pobl yng Nghymru yn dal i ennill llai o arian na phobl mewn llawer o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.
- Mae **incwm aelwydydd** wedi cynyddu dros amser.

Incwm aelwydydd ydy'r arian sy'n dod i mewn i gartref.




- Does gan lawer o bobl yng Nghymru ddim digon o arian ar gyfer costau byw bob dydd.
- Mae aelwydydd sy'n cynnwys plant yn fwy tebygol o fyw mewn **tlodi** na'r aelwydydd sy'n cynnwys oedolion yn unig.

Mae **tlodi** yn golygu bod heb ddigon o arian i fyw bywyd diogel a chyfforddus.

- Mae mwy o bobl yn cael trafferth talu eu biliau ynni nag ychydig flynyddoedd yn ôl.
- Yn ôl amcangyfrif, mae tua 1 aelwyd o bob 4 mewn **tlodi tanwydd**.

Mae **tlodi tanwydd** yn golygu methu â fforddio cadw eich cartref yn gynnes.



- Mae tua 2 weithiwr o bob 3 yn ennill **cyflog byw gwirioneddol** o leiaf.

Y **cyflog byw gwirioneddol** ydy'r gyfradd cyflog sydd wedi'i chynllunio i dalu am gostau byw bob dydd.



- Mae menywod a dynion yn cael eu talu'n fwy cyfartal nag yr oedden nhw 20 mlynedd yn ôl.



- Mae pobl anabl a phobl o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dal i ennill llai ar gyfartaledd.

- Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Mae'r nifer yn agos at darged Llywodraeth Cymru.



- Mae gan fwy o bobl **gymwysterau** nag yn y gorffennol.

-
- Mae llai o bobl sydd heb **gymwysterau**.

Tystysgrifau, dyfarniadau neu raddau sy'n cael eu hennill drwy ddysgu ydy **cymwysterau**.



- Yn aml, dydy plant o gefndiroedd tlotach ddim yn gwneud cystal yn yr ysgol â phlant eraill. Dydy'r bwlch yma ddim wedi diflannu.

2. Cymru gydnerth



Mae'r nod hwn yn sôn am amddiffyn byd natur a helpu Cymru i ddelio â newid.

Mae'n golygu:



- Gofalu am anifeiliaid a phlanhigion.
- Cadw'r aer, y tir a'r dŵr yn iach.
- Peidio â gwastraffu pethau rydyn ni'n eu cael gan fyd natur.
- Bod yn barod am newidiadau mawr fel newid yn yr hinsawdd.



Dyma rydyn ni wedi ei ddarganfod:



- Mae rhai anifeiliaid a phlanhigion mewn perygl o ddiflannu.



- Mae'r **pridd** yn y rhan fwyaf o Gymru yn aros yn iach.
- Mae safon yr aer a'r dŵr wedi gwella, ond mae mwy i'w wneud.
- Mae Cymru'n dda iawn am ailgylchu a lleihau gwastraff.

Pridd ydy'r haen ar y ddaear y mae planhigion yn tyfu ynddi.

-
- Mae ansawdd dŵr yn well nag nawr nag o'r blaen.



- Mae mwy o waith i'w wneud o hyd i wella afonydd, nentydd a'r môr.



- Mae llawer o gartrefi ac adeiladau yng Nghymru mewn perygl o lifogydd.

- Mae amddiffynfa rhag llifogydd yn helpu i amddiffyn rhai o'r mannau hyn.

- Mae llifogydd yn digwydd pan fydd dŵr yn gorchuddio tir sydd yn sych fel arfer.

- Mae **llygredd aer** wedi lleihau dros amser. Ond mae'n dal yn gallu niweidio pobl a byd natur.



Mae **llygredd aer** yn golygu llygredd sy'n cael ei achosi gan bethau fel traffig, ffatrioedd a gwresogi.



- Mae Cymru'n **ailgylchu** mwy o wastraff o aelwydydd nag unrhyw wlad arall bron.
- Mae pobl yn taflu llai o wastraff nag o'r blaen.



Mae **ailgylchu** yn golygu troi gwastraff yn rhywbeth sy'n gallu cael ei ddefnyddio eto.

- Mae Cymru'n dal i ddefnyddio dŵr, tir a phethau eraill o fyd natur yn gyflymach nag sy'n bosib eu rhoi yn ôl.
- Mae tua 1 uned trydan o bob 3 sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn dod o wynt, golau'r haul a ffynonellau **adnewyddadwy** eraill.

-
- Mae mwy o egni'n cael ei gynhyrchu fel hyn nag yn y gorffennol.

Mae **ynni adnewyddadwy** yn dod o ffynonellau sydd ddim yn dod i ben, fel gwynt a golau'r haul.

- Byddai llawer o gartrefi yn gallu bod yn well am gadw gwres i mewn a defnyddio llai o ynni.
- Byddai hyn yn gallu helpu pobl i arbed arian ar filiau.
- Mae adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud bod byd natur yng Nghymru yn dal i wynebu heriau difrifol.
- Mae **newid yn yr hinsawdd**, llygredd a cholli bywyd gwyllt yn dal i achosi problemau.

Newid yn yr hinsawdd ydy'r newid hirdymor yn nhywydd y Ddaear sy'n cael ei achosi yn bennaf gan lygredd.

3. Cymru iachach



Mae'r nod hwn yn sôn am helpu pobl yng Nghymru i fod mor iach â phosib.

Mae'n golygu:



- Helpu pobl i gadw'n iach yn gorfforol.

- Helpu pobl i gadw'n iach yn feddyliol.



Deall

- Cefnogi pobl i wneud dewisiadau iach.

- Helpu pobl i gadw'n iach wrth iddyn nhw fynd yn hŷn.

Dyma rydyn ni wedi ei ddarganfod:

- Mae pobl yng Nghymru yn byw'n hirach.

- Ond mae'r gwelliannau'n arafach nag yr oedden nhw'n arfer bod.



- Mae pobl yn treulio llai o'u bywydau mewn iechyd da.

- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd tlotach yn treulio llai o amser mewn iechyd da.



- Mae mwy o fabis yn cael eu geni ar bwysau isel nag yn y gorffennol.

Mae **pwysau geni isel** yn golygu bod babi'n ysgafnach na'r disgwyl ar enedigaeth.

- Mae llawer o oedolion yn gwneud dewisiadau iach.



- Mae rhai arwyddion yn awgrymu bod **arferion iach** wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae mwy o bobl ifanc yn dilyn **arferion iach** nag yn y gorffennol.

Mae **arferion iach** yn cynnwys pethau fel peidio ysmegu, bwyta bwyd iach a chadw'n heini.

- Mae ysmegu ac yfed ymhlith pobl ifanc wedi dod yn llai cyffredin.
- Mae **llesiant meddyliol** oedolion wedi aros tua'r un fath yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Llesiant meddyliol ydy sut rydyn ni'n teimlo ac yn delio efo bywyd bob dydd.

-
- Mae **llesiant meddyliol** pobl ifanc wedi gwaethygu dros amser.
 - Mae pobl ifanc o deuluoedd tlotach yn fwy tebygol o fod â llesiant is.
 - Mae'r bwlch rhwng ardaloedd cyfoethocach a thlotach wedi tyfu.
 - Mae cartrefi yng Nghymru yn fwy diogel ac mewn cyflwr gwell nag yr oedden nhw'n arfer bod.
 - Gall tai da helpu pobl i gadw'n iach.
 - **Dementia**, clefyd Alzheimer a chlefyd y galon yw rhai o'r achosion marwolaeth mwyaf cyffredin yng Nghymru o hyd.



Mae **Dementia** yn effeithio ar y cof, y meddwl a gweithgareddau bob dydd.

4. Cymru sy'n fwy cyfartal



Mae'r nod hwn yn sôn am sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle teg mewn bywyd.

Mae'n golygu:



- Trin pobl yn deg.
- Helpu pawb i wneud yn dda mewn bywyd.



- Gwneud yn siŵr bod pobl ddim yn cael eu dal yn ôl oherwydd pwy ydyn nhw.

Dyma rydyn ni wedi ei ddarganfod:



- Mae tua 1 person o bob 5 yng Nghymru yn byw **mewn tlodi**.



- Mae plant yn fwy tebygol o fyw **mewn tlodi** nag oedolion.

Mae **tlodi** yn golygu bod heb ddigon o arian i fyw bywyd diogel a chyfforddus.

- Mae merched fel arfer yn gwneud yn well yn yr ysgol na bechgyn.
- Mae menywod yn llai tebygol o fod mewn gwaith na dynion.
- Mae menywod yn dal i gael llai o gyflog na dynion, ond mae'r bwlch yn llai nag yr oedd yn arfer bod.





- Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.
- Mae pobl hŷn yn aml yn dweud bod eu **llesiant** yn well na phobl iau.
- Mae pobl hŷn yn llai tebygol o deimlo'n unig.

Mae **llesiant** yn golygu bod yn iach, yn hapus a gallu byw bywyd da.

- Mae plant o rai **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn gwneud yn well yn yr ysgol na phlant eraill.
- Mae pobl o **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn llai tebygol o fod mewn gwaith na phobl Wyn, ond mae'r bwlch yn llai nag yr oedd yn arfer bod.

- Mae pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu talu llai na phobl wyn.
- Mae pobl o **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi.
- Mae pobl o **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn dweud bod eu lefelau llesiant yn uwch na phobl wyn, ond maen nhw hefyd yn fwy tebygol o deimlo'n unig.



Grwpiau lleiafrifoedd ethnig ydy grwpiau o bobl y mae eu cefndir ethnig yn wahanol i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru.



Is



- Mae pobl anabl yn llai tebygol o fod mewn gwaith na phobl sydd ddim yn anabl.
- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi.



- Mae pobl anabl yn ennill llai o arian na phobl sydd ddim yn anabl.
- Mae pobl anabl yn fwy tebygol o deimlo'n unig a rhoi gwybod am lesiant is.
- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi.
- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn fwy tebygol o deimlo'n unig na phobl eraill.
- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth deithio neu yn eu hardal leol.
- Mae pobl ifanc sydd ddim yn ystyried eu hunain yn fachgen neu'n ferch yn dweud bod eu llesiant yn is a'u bod yn fwy unig.

-
- Mae pobl ifanc sydd ddim yn ystyried eu hunain yn fachgen na'n ferch yn llai tebygol o ddweud bod ganddyn nhw arferion iach.
 - Mae pobl sydd wedi priodi yn dweud bod eu llesiant yn well na phobl sengl.
 - Mae pobl sydd wedi priodi yn llai tebygol o deimlo'n unig.
 - Mae gan bobl grefyddol well llesiant na phobl nad ydynt yn grefyddol. Roedd Cristnogion a phobl nad oeddent yn grefyddol yn llai tebygol o fod yn unig.

5. Cymru o gymunedau cydlynus



Mae'r nod hwn yn sôn am helpu cymunedau yng Nghymru i deimlo'n ddiogel, yn groesawgar ac wedi'u cysylltu'n dda.

Mae'n golygu:



- Gwneud yn siŵr bod lleoedd yn braf i fyw ynddynt.



- Helpu pobl i gyd-dynnu'n dda.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo'n ddiogel.



- Helpu pobl i gadw mewn cysylltiad efo'i gilydd a gwasanaethau.

Dyma rydyn ni wedi ei ddarganfod:

6 o 10



- Mae bron i 6 person o bob 10 yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol.
- Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o deimlo fel hyn na phobl iau.

8 o 10



- Mae mwy nag 8 person o bob 10 yn hapus gyda'u hardal leol fel lle i fyw.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu cyrraedd y gwasanaethau a'r cyfleusterau maen nhw eu hangen. Mae hyn yn gallu bod yn anoddach i bobl mewn ardaloedd gwledig.
- Mae llai o bobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal.

7 o 10



- Mae tua 7 person o bob 10 yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu.



- Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o deimlo'n ddiogel.

3 o 10



- Mae tua 3 oedolyn o bob 10 yn **gwirfoddoli**.
- Mae mwy o bobl yn **gwirfoddoli** nag yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae **gwirfoddoli** yn golygu rhoi o'ch amser i helpu pobl neu fudiadau heb gael eich talu.

- Mae tua 1 person o bob 8 yn dweud eu bod yn teimlo'n unig.
- Mae oedolion iau yn fwy tebygol o deimlo'n unig nag oedolion hŷn.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r rhyngrwyd.
- Mae pobl hŷn yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd na phobl iau.

-
- Cafodd mwy o aelwydydd gymorth i osgoi **digartrefedd** nag yn y flwyddyn flaenorol.

Mae **digartrefedd** yn golygu bod heb gartref parhaol.

- Roedd llai o bobl yn byw mewn **llety dros dro**.

Llety dros dro yw rhywle tymor byr i bobl fyw ynddo sydd heb gartref parhaol.

- Roedd llai o bobl yn **cysgu allan** nag yn y flwyddyn flaenorol.

Mae **cysgu allan** yn golygu cysgu y tu allan oherwydd does gennych chi ddim cartref.

-
- Dydy rhai pobl ddim yn teimlo'n hyderus bod y **system gyfiawnder** yn deg ac yn gweithio'n dda.

Mae'r **system gyfiawnder** yn cynnwys llysoedd a sefydliadau eraill sy'n delio efo'r gyfraith.

- Mae llai o bobl yn dweud eu bod wedi dioddef trosedd.



- Mae llai o droseddau wedi cael eu cofnodi gan yr heddlu.



- Mae llawer o bobl yn meddwl bod troseddu wedi cynyddu ar draws y wlad.

- Mae llai o bobl yn meddwl bod troseddu wedi cynyddu yn eu hardal leol.

-
- Mae llai o droseddau wedi cael eu cofnodi gan yr heddlu.
 - Roedd y rhan fwyaf o **droseddau casineb** a gafodd eu cofnodi'n gysylltiedig â hil neu gefndir ethnig unigolyn.

Trosedd casineb yw trosedd sy'n targedu rhywun oherwydd pwy ydyn nhw.

6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu




Mae'r nod hwn yn sôn am dathlu diwylliant Cymru a helpu'r Gymraeg i dyfu.


Mae'n golygu:



- Gofalu am iaith, traddodiadau a hanes Cymru.



- Helpu pobl i fwynhau'r celfyddydau, cerddoriaeth, chwaraeon a gweithgareddau eraill.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan.
- Diogelu lleoedd pwysig o'r gorffennol.

Diogelu lleoedd pwysig o'r gorffennol:



- Mae tua 7 oedolyn o bob 10 yn mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys y **celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth**. Dydy hyn heb newid ryw lawer yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae gweithgareddau'r **celfyddydau, diwylliant a threftadaeth** yn cynnwys pethau fel cerddoriaeth, y theatr, amgueddfa a mannau hanesyddol.



- Mae mwy o blant yn mynd i weithgareddau sy'n cynnwys y celfyddydau nag a oedd ychydig flynyddoedd yn ôl.
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys y celfyddydau.

- Mae mwy o amgueddfeydd a gwasanaethau **archifau** yn cyrraedd safonau ansawdd nag yn y gorffennol.

Mae **archifau** yn fannau sy'n cadw cofnodion a dogfennau pwysig.



- Mae mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd nag yn y gorffennol.

- Mae tua 1 oedolyn o bob 3 yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf 3 gwaith yr wythnos.



- Mae llai o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan i'r ysgol nag yn y gorffennol.

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn dweud y bydden nhw'n hoffi gwneud mwy o chwaraeon.

-
- Gostyngodd nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf.



- Mae canran y siaradwyr Cymraeg ar y lefel isaf sydd wedi cael ei gofnodi erioed mewn cyfrifiad.

- Ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd dros y blynyddoedd diwethaf.

- Mae mwy o bobl yn dweud eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg nag yn y gorffennol.



- Mae adeiladau hanesyddol yng Nghymru mewn cyflwr ychydig yn well nag yr oedden nhw 10 mlynedd yn ôl.

- Mae **henebion** mewn cyflwr gwaeth nag yr oedden nhw ychydig o flynyddoedd yn ôl.

-
- Mae eu cyflwr wedi bod yn fwy sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.



Hen lefydd fel cestyll, adfeilion a safleoedd hynafol yw **henebion**.

- Mae rhai grwpiau o bobl yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a chwaraeon nag eraill.
- Mae pobl iau, pobl mewn iechyd da a phobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n fwy cyfoethog yn aml yn fwy tebygol o gymryd rhan.

7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang



Mae'r nod hwn yn sôn am helpu pobl yng Nghymru ac o amgylch y byd.

Mae'n golygu:



- Meddwl am sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar bobl eraill.
- Gofalu am y Ddaear.
- Peidio gwastraffu pethau.
- Helpu pobl i gael bywyd da.

Dyma rydyn ni wedi ei ddarganfod:

- Mae Cymru'n rhoi llai o lygredd yn yr awyr nag o'r blaen.
- Mae Cymru'n defnyddio llai o dir, dŵr a deunyddiau'r Ddaear nag o'r blaen. Ond rydyn ni dal i ddefnyddio mwy na digon.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dal i yrru car i'r gwaith. Dydy hyn heb newid ryw lawer yn y blynyddoedd diwethaf.
- Mae rhai pobl yng Nghymru yn helpu gyda phroblemau sy'n effeithio ar bobl o amgylch y byd.
- Mae'n bosib y byddan nhw'n rhoi arian, yn codi arian neu'n newid beth maen nhw'n yn ei brynu.



- Mae sôn bod mwy o bobl yn ddioddefwyr posib **caethwasiaeth fodern**.



Caethwasiaeth fodern ydy pan fydd person yn cael ei reoli gan rywun arall a dydyn nhw ddim yn gallu dewis sut mae'n byw neu'n gweithio.

- Mae nifer fach o bobl yng Nghymru angen cymorth oherwydd **priodas dan orfod** neu **anffurfio organau cenhedlu benywod**.

Priodas dan orfod yw pan mae rhywun yn cael ei orfodi i briodi yn erbyn ei ewylllys.

Ystyr **anffurfio organau cenhedlu benywod** ydy pan fydd corff merch neu fenyw yn cael ei niweidio drwy dorri ei rhannau dirgel.

- Mae llawer o bobl ifanc yn dysgu am faterion byd-eang yn yr ysgol a'r coleg.
- Does gan rai pobl ddim digon o arian bob amser ar gyfer bwyd.
- Mae rhai pobl yn defnyddio banciau bwyd i gael help.
- Roedd dros 3,100 o bobl yn cael cymorth wrth aros i glywed a allen nhw aros yn y DU.
- Mae'r nifer wedi aros tua'r un fath yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae'r rhan fwyaf o blant ifanc yn dal i gael eu brechiadau.
- Mae llai o blant yn cael **brechiadau** o'i gymharu ag ychydig flynyddoedd yn ôl.



Mae **brechiadau** yn helpu i amddiffyn pobl rhag salwch difrifol.

Rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn



Mae'r adroddiad hwn am lesiant Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud yr adroddiad hwn bob blwyddyn. Mae cyfraith yn dweud bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud yr adroddiad hwn.



Yr enw ar y gyfraith ydy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r adroddiad yn defnyddio gwybodaeth o:

- arolygon
- gwaith ymchwil
- adroddiadau eraill



Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall beth mae pobl yng Nghymru yn ei wneud. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar-lein yn: www.llyw.cymru/llesiant-cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae hon yn ddogfen Hawdd ei Deall gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2026.

Geiriau anodd

Yr **economi** ydy'r arian y mae pobl, busnesau a phob llywodraeth yn ei wario ac yn ei ennill.

Mae **cyflogaeth** yn golygu bod pobl mewn gwaith.

Incwm aelwydydd ydy'r arian sy'n dod i mewn i gartref.

Mae **tlodi** yn golygu bod heb ddigon o arian i fyw bywyd diogel a chyfforddus.

Mae **tlodi tanwydd** yn golygu methu â fforddio cadw eich cartref yn gynnes.

Y **cyflog byw gwirioneddol** ydy'r gyfradd cyflog sydd wedi'i chynllunio i dalu am gostau byw bob dydd.

Tystysgrifau, dyfarniadau neu raddau sy'n cael eu hennill drwy ddysgu ydy **cymwysterau**.

Pridd ydy'r haen ar y ddaear y mae planhigion yn tyfu ynddi.

Mae **llygredd aer** yn golygu llygredd sy'n cael ei achosi gan bethau fel traffig, ffatrioedd a gwresogi.

Mae **ailgylchu** yn golygu troi gwastraff yn rhywbeth sy'n gallu cael ei ddefnyddio eto.

Mae **ynni adnewyddadwy** yn dod o ffynonellau sydd ddim yn dod i ben, fel gwynt a golau'r haul.

Newid yn yr hinsawdd ydy'r newid hirdymor yn nhywydd y Ddaear sy'n cael ei achosi yn bennaf gan lygredd.

Mae **pwysau geni isel** yn golygu bod babi'n llai ac yn ysgafnach na'r disgwyl ar enedigaeth.

Mae **arferion iach** yn cynnwys pethau fel peidio ysmegu, bwyta bwyd iach a chadw'n heini.

Llesiant meddyliol ydy sut rydyn ni'n teimlo ac yn delio efo bywyd bob dydd.

Mae **dementia** yn effeithio ar y cof, y meddwl a gweithgareddau bob dydd.

Mae **tlodi** yn golygu bod heb ddigon o arian i fyw bywyd diogel a chyfforddus.

Mae **llesiant** yn golygu bod yn iach, yn hapus a gallu byw bywyd da.

Grwpiau lleiafrifoedd ethnig ydy grwpiau o bobl y mae eu cefndir ethnig yn wahanol i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru.

Mae **gwirfoddoli** yn golygu rhoi o'ch amser i helpu pobl neu fudiadau heb gael eich talu.

Mae **digartrefedd** yn golygu bod heb gartref parhaol.

Llety dros dro ydy rhywle tymor byr i bobl fyw ynddo sydd heb gartref parhaol.

Mae **cysgu allan** yn golygu cysgu y tu allan oherwydd does gennych chi ddim cartref.

Mae'r **system gyfiawnder** yn cynnwys llysoedd a sefydliadau eraill sy'n delio efo'r gyfraith.

Trosedd casineb ydy trosedd sy'n targedu rhywun oherwydd pwy ydyn nhw.

Mae'r **celfyddydau a diwylliant** yn cynnwys pethau fel cerddoriaeth, theatr, amgueddfa a mannau hanesyddol.

Mae **archifau** yn fannau sy'n cadw cofnodion a dogfennau pwysig.

Hen lefydd fel cestyll, adfeilion a safleoedd hynafol yw **henebion**.

Caethwasiaeth fodern ydy pan fydd person yn cael ei reoli gan rywun arall a dydyn nhw ddim yn gallu dewis sut mae'n byw neu'n gweithio.

Priodas dan orfod ydy pan fo rhywun yn cael ei orfodi i briodi yn erbyn ei ewyllys.

Ystyr **anffurfio organau cenhedlu benywod** ydy pan fydd corff merch neu fenyw yn cael ei niweidio drwy dorri ei rhannau dirgel.

Mae **brechiadau** yn helpu i amddiffyn pobl rhag salwch difrifol.